# Yr Eglwys yng Nghymru - Arolwg Newid Hinsawdd/Sero Net 2026 TERFYNOL

Cyhoeddodd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2021 ac ymrwymodd yr Eglwys yng Nghymru i gyrraedd carbon sero net cyn gynted â phosibl, gyda dyddiad targed o 2030.

Mae 2026 yn nodi 5 mlynedd ar ôl y penderfyniad hwnnw a bydd y Corff Llywodraethol yn adolygu'r cynnig hwnnw yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2026.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ceisio barn yr Eglwys ar gynnydd tuag at darged 2030 a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol i fod yn sail i ddadl y Corff Llywodraethol.

Cynhelir yr arolwg hwn ar ran yr Eglwys yng Nghymru gan Beaufort Research, asiantaeth ymchwil annibynnol sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Dylai'r arolwg gymryd tua 10 munud i'w gwblhau.

**********************************************************************

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddienw gan Beaufort Research a bydd yn cael ei rhannu gyda'r Eglwys yng Nghymru ar ôl cael ei gyfuno. Bydd y cleient yn gwybod pa sefydliadau a grwpiau o randdeiliaid a gymerodd ran yn yr arolwg, ond ni fydd yn gwybod pa unigolion sydd wedi cymryd rhan, oni bai y cytunwyd fel arall. Ni fyddwn yn fwriadol yn cynnwys unrhyw sylwadau air-am-air yn ein hadroddiad a allai arwain at adnabod unigolyn. Fodd bynnag, ceisiwch beidio â chynnwys unrhyw wybodaeth yn yr ymatebion agored a all eich adnabod, gan y bydd yr ymatebion dienw hyn yn cael eu rhannu â thîm bach sy'n gweithio ar yr adolygiad yn yr Eglwys yng Nghymru.

**Ydych chi'n hapus i barhau?**

Ydw
Nac ydw

**********************************************************************

**Ym mha iaith yr hoffech chi lenwi'r arolwg hwn?**

Cymraeg
Saesneg

1. **Pa un o'r sefydliadau canlynol sy'n <u>eich cynrychioli chi orau</u>?**

- Pwyllgor yr Eglwys
- Cyngor Ardal Weinidogaeth/Cenhadaeth (MAC)
- Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth (DBF)
- Ymddiriedolwr neu aelod o bwyllgor Corff y Cynrychiolwyr (RB)
- Aelod o'r Eglwys
- Arall, nodwch_________________

2. **Cyn heddiw, oeddech chi wedi clywed am gynnig y Corff Llywodraethol yn 2021 i ddatgan Argyfwng Hinsawdd a gosod Targed Sero Net ar gyfer 2030?**

   Oeddwn, roeddwn i wedi clywed amdano ac <u>yn gwybod cryn dipyn amdano</u>
   Oeddwn, roeddwn i wedi clywed amdano ac <u>yn gwybod ychydig amdano</u>
   Oeddwn, roeddwn i wedi clywed amdano <u>ond dydw i ddim yn gwybod dim amdano</u>
   Dydw i erioed wedi clywed amdano

3. **Pa mor bwysig yw ystyriaethau ynghylch sero net a newid hinsawdd i'ch sefydliad?**

   Hollol hanfodol
   Pwysig iawn
   Eithaf pwysig
   Ddim yn bwysig iawn
   Ddim yn bwysig o gwbl

4. **Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau i ba raddau y mae'r Datganiad a'r Targed Sero Net wedi effeithio ar benderfyniadau a pholisïau'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli?**

   Maent yn ganolog i wneud penderfyniadau a pholisi
   Maent yn gefnogaeth ddefnyddiol ar gyfer camau gweithredu yr oeddem am eu cymryd beth bynnag
   Maent wedi'u nodi a'u trafod
   Nid ydynt wedi bod yn rhan sylweddol o wneud penderfyniadau
   Nid ydynt wedi cael unrhyw effaith o gwbl

**4b. Pam ydych chi'n dweud hynny?**

______________________________________________

5. **Sefydlodd y Cymundeb Anglicanaidd Bum Nod Cenhadaeth.**

   **Rhestrwch y rhain yn nhermau'r flaenoriaeth gymharol a roddir iddynt gan eich sefydliad.**

| ***Trefn ar hap*** | **Safle 1-5** |
|---|---|
| Cyhoeddi Newyddion Da'r Deyrnas | |
| Dysgu, bedyddio a meithrin credinwyr newydd | |
| Ymateb i angen dynol trwy wasanaeth cariadus | |

| | |
|---|---|
| Ceisio trawsnewid trefn anghyfiawn mewn cymdeithas, herio trais o bob math a hyrwyddo heddwch a chymod | |
| Ceisio diogelu cyfanrwydd y cread, a chynnal ac adnewyddu bywyd ar y ddaear | |

Nid ydym yn defnyddio'r Nodau Cenhadaeth hyn yn ein gwaith
Ddim yn ymwybodol o'r Pum Nod Cenhadaeth

6. **Pa mor debygol yw hi y bydd <u>eich sefydliad</u> yn cyrraedd sefyllfa Sero Net erbyn 2030?**

Tebygol iawn
Tebygol
Annhebygol
Annhebygol iawn
Ddim yn gwybod

***GOFYNNWCH OS YW'R ATEB YN 'ANNHEBYGOL' NEU'N 'ANNHEBYGOL IAWN':***

6b. **Beth fyddai'n ddyddiad targed rhesymol i'ch sefydliad gyrraedd sefyllfa Sero Net?**

---

7. **Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2026, wrth adolygu'r cynnig Sero Net, a ydych chi'n credu y dylai'r Corff Llywodraethol**:

**Gadw'r cynllun gwreiddiol** – Cefnogi targed Sero Net 2030 ac annog pob grŵp eglwysig i'w flaenoriaethu.

**Gohirio'r targed** – Aros yn ymrwymedig i Sero Net ond symud y dyddiad targed i 2035, er enghraifft.

**Gosod nod tymor hwy** – dal ati i leihau allyriadau carbon, ond anelu at 2050 fel Llywodraeth y DU.

**Anghofio'r targed** – Stopio cael targed Sero Net.

8. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r Eglwys yng Nghymru ehangu ei dull o ymdrin ag agenda amgylcheddol yn ffurfiol, drwy osod polisi clir i gefnogi bioamrywiaeth a defnydd tir cynaliadwy?**

Cytuno'n gryf
Tueddu i gytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Tueddu i anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

**8b. Pam ydych chi'n dweud hynny?**

---

**9. Wrth ddyrannu adnoddau ariannol, pa flaenoriaeth y dylid ei rhoi i'r targed sero net?**

**Blaenoriaeth uchaf** – uwchlaw pob angen arall.
**Blaenoriaeth gyfartal** – yr un pwysigrwydd â thwf eglwysig.
**Blaenoriaeth uchel, ond eilradd** – dim ond ar ôl i dwf eglwysig gael ei ariannu.
**Blaenoriaeth is** – dim ond ar ôl i dwf eglwysig a chostau craidd gael eu talu.
**Cymorth pwrpasol yn unig** – ariannu prosiectau sy'n denu cyllid allanol neu'n cefnogi mentrau lleol.
**Dim blaenoriaeth** – dim ffocws o gwbl.

**10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y targed Sero Net?**

---

**11. A fyddech chi'n fodlon i ni rannu eich manylion cyswllt gyda'r Eglwys yng Nghymru? Os felly, efallai y bydd yr Eglwys yng Nghymru yn cysylltu â chi i drafod eich atebion i'r arolwg.**

Byddwn
Na fyddwn

***OS YW'R ATEB YN 'BYDDWN' gofynnwch***
**12. Rhowch y wybodaeth ganlynol:**

Enw:
Sefydliad:
Esgobaeth:
Cyfeiriad e-bost:
Rhif ffôn: